Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service




# Safonau'r Gymraeg

## Adroddiad Monitro Blynyddol

1af o Ebrill 2023 – 31ain o Farwth 2024

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Rhagymadrodd

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn falch o gyhoeddi ei Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023/2024. Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i fonitro ei gynnydd yn erbyn y Safonau drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf ac wedi parhau i gynnig gwasanaethau dwyieithog o safon. Rydym yn parhau i ymdrechu i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, a bod pobl yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn i ymholiadau, ceisiadau am swyddi a chyfweliadau gael eu cynnal yn y naill iaith neu'r llall. Ein nod yw cyfrannu'n weithredol at strategaeth "**Miliwn o Siaradwyr erbyn 2025**" Llywodraeth Cymru.

Mae'r Gymraeg yn allweddol i'n hunaniaeth Gymreig fodern ac yma yn GTADC rydym yn awyddus iawn i fod yn rhan o hynny.

**DOLEN DDEFNYDDIOL:**
Miliwn o Siaradwyr erbyn 2025

SGANIWCH FI





# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir i Safonau'r Gymraeg | 6 |
| Gweithredu Safonau'r Gymraeg a Monitro Cydymffurfiaeth | 8 |
| Gwefan gwefan Safonau'r Gymraeg | 11 |
| Gwasanaethau Cyfieithu Gymraeg | 12 |
| Cyflawni ein gweithgareddau Lleihau Risg Cymunedol | 14 |
| Nifer yr ymweliadau a dderbyniwyd i dudalennau gwefan Cymraeg | 17 |
| Dadansoddiad o ryngweithiadau â thudalennau Cyfryngau Cymdeithasol | 18 |
| System E-recriwtio | 20 |
| Galwadau ffôn a gohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg | 23 |
| Polisïau a Gweithdrefnau Corfforaethol | 24 |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru | 27 |
| Diwrnod Hawliau'r Gymraeg | 28 |
| Nifer y Staff sydd â Sgiliau Iaith Gymraeg | 31 |
| Swyddi a Sgiliau Iaith Gymraeg | 32 |
| Hyfforddiant a Chyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg | 35 |
| Gwobr Iaith Gymraeg i Ddiffoddwyr Tân | 35 |
| Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg | 36 |
| Camau i'w cymryd yn ystod 2024/2025 ac i'r dyfodol | 39 |

Cefndir

# Safonau'r Gymraeg

**O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith, sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Mae'r dyletswyddau'n annog hyrwyddo'r Gymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol ac yn ei gwneud yn ofynnol bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer hygyrchedd y Gymraeg i'r cyhoedd. Mae adran 44 o Fesur 2011 yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg ddyroddi hysbysiad Cydymffurfio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu ragor o Safonau sy'n benodol gymwys iddo. Cyflwynwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru ar 30 Medi 2016.

Yn unol ag Adran 44 o Fesur 2011, pwrpas Safonau'r Gymraeg yw darparu:

- Eglurder i sefydliadau ar y Gymraeg
- Eglurder i siaradwyr Cymraeg ar ba wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- Mwy o gysondeb mewn gwasanaethau Cymraeg a gwella ansawdd i ddefnyddwyr

Mae cyfanswm o **150 o Safonau'r Gymraeg** erbyn hyn yn eu lle o fewn y categorïau canlynol:

**72** **o Safonau Cyflenwi Gwasanaethau** sy'n canolbwyntio ar y defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau, ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth i ni ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

**15** **o Safonau Llunio Polisi** sy'n sicrhau bod y Gwasanaeth yn ystyried pa effaith, os o gwbl, a gaiff ein penderfyniadau polisi ar allu unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

**53** **o Safonau Gweithredu** sy'n canolbwyntio ar hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ein prosesau gweinyddu mewnol.

**10** **o Safonau Cadw Cofnodion** sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth gadw cofnodion ar gyfer cydymffurfio â gofynion y safonau mewn meysydd megis sgiliau iaith Gymraeg staff, hyfforddiant, cwynion, a recriwtio.

# Gweithredu Safonau'r **Gymraeg** a Monitro Cydymffurfiaeth

Y Tîm Arwain Gweithredol a'r Penaethiaid Gwasanaeth sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth yr Awdurdod â Safonau'r Gymraeg. Fel corff cyhoeddus mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth hunanreoleiddio ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn yn golygu monitro ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a sicrhau ein bod yn darparu digon o gyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio gyda ni neu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gofnodi o bryd i'w gilydd sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut rydym yn ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd. Mae cofnodi'r manylion hyn yn ein galluogi i ddangos sut rydym yn parhau i gydymffurfio. Mae monitro cydymffurfiaeth â'r Safonau hefyd yn cynnwys cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol ar y wefan allanol erbyn 30 Medi bob blwyddyn.

Mae cynnwys yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Y modd y mae'r Gwasanaeth wedi cydymffurfio â'r gwahanol ddosbarthiadau o Safonau
- Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg – Safon 147
- Nifer (a chanran os yw'n berthnasol) yr aelodau staff a fynychodd hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, sefydlu, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch) – Safon 148
- Nifer y swyddi newydd a gwag sydd wedi'u categoreiddio fel rhai lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, ddim yn angenrheidiol, neu angen eu dysgu – Safon 151
- Nifer y cwynion a gafodd y sefydliad am bob dosbarth o Safonau – Safon 143





# Tudalen gwefan Safonau'r Gymraeg

Mae gan y Gwasanaeth dudalen benodol ar Safonau'r Gymraeg sy'n cael ei chynnwys o dan 'Pwy ydym ni' ar ddewislen gwefan y Gwasanaeth. Mae'r dudalen yn cynnwys gwybodaeth sy'n egluro Safonau'r Gymraeg ynghyd â dolenni i Hysbysiad Cydymffurfio, Cynllun Gweithredu ac Adroddiad Monitro Blynyddol yr Awdurdod. Darperir manylion i ddefnyddiwr y wefan yn egluro sut i gofrestru cwyn neu ganmoliaeth ynghylch cydymffurfio â'r Safonau a darperir manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch ein Gwasanaeth a'r Gymraeg.

**DOLENNI DEFNYDDIOL:**

Safonau'r Gymraeg





Gweithdrefn ar gyfer cwynion a chanmolaeth ynghylch Safonau'r Gymraeg



# Gwasanaethau Cyfieithu **Cymraeg**

Mae gan y Gwasanaeth ei dîm Cyfieithu mewnol ei hun gyda dau aelod parhaol o staff. Mae'r tîm yn gweithredu fel rhan o'r adran Cyfryngau a Chyfathrebu ehangach ac yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i ddarparu cynnwys dwyieithog o'r safon uchaf i'r holl randdeiliaid. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r tîm unwaith eto wedi gwneud cyfraniad eithriadol i'r Gwasanaeth, gan ddarparu cyfieithu prydlon ar gyfer ystod o ddeunyddiau gan gynnwys dogfennau technegol cymhleth, cynlluniau busnes, adroddiadau, fideo a negeseuon cyfryngau cymdeithasol.

**Cynllun Strategol 2020-2030**
**Diweddariad Blwyddyn Pump**




SGANIWCH FI

| Cyfanswm y geiriau ar gyfer 1af Ebrill 2023 – 31ain Mawrth 2024 | |
|---|---|
| Geiriau a gyfieithwyd: 295,714 | Geiriau a ddarllenwyd ar gyfer darlllen proflenni: 167,075 |

Mae ein cyfieithwyr yn parhau i ddarparu cefnogaeth anffurfiol i aelodau staff unigol sy'n ystyried eu bod yn ddysgwyr Cymraeg ac sy'n dymuno ymarfer eu sgiliau yn y gweithle. Mae'r cymorth hwn yn helpu cydweithwyr i feithrin eu hyder wrth siarad ac ysgrifennu drwy gyfrwng y Gymraeg.





Cyflawni ein gweithgareddau

# Lleihau Risg Cymunedol

Rydym yn darparu rhaglen eang o weithgareddau addysgol ac archwiliadau i'r rhai sydd mewn perygl o fewn ein cymunedau er mwyn lleihau'r risg o dân ac anafiadau cysylltiedig mewn eiddo domestig, busnes ac adeiladau eraill. Bydd ein gwaith i leihau tanau bwriadol, gan gynnwys tanau gwyllt a sbwriel, a diogelwch o gwmpas dŵr yn sicrhau bod cymunedau'n gallu mwynhau amgylcheddau awyr agored yn ddiogel. Mae ein rhaglen addysg diogelwch ffyrdd yn darparu gwybodaeth i randdeiliaid a fydd yn gwneud teithio ar ein ffyrdd yn fwy diogel.

Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl ddulliau i ofyn am weithgareddau addysgol ar gael yn ddwyieithog (dros y ffôn ac ar-lein) ac mae gan ein timau Lleihau Risg arbenigol nifer o rolau Cymraeg hanfodol i gyflwyno gweithgareddau yn Gymraeg. Mae'r tabl ar dudalen 15 yn rhoi trosolwg o weithgareddau Lleihau Risg cymunedol a gyflawnwyd yn ystod 2023/2024 ynghyd â'r nifer a ddarparwyd yn Gymraeg.

| Gweithgaredd Lleihau Risg Cymunedol | Iaith Cyflwyno | |
|---|---|---|
| | Saesneg | Cymraeg |
| Gwiriad Tân yn y Cartref | 15,001 | 2 |
| Diogelwch yn y Cartref – Digwyddiadau / Cyflwyniadau / Trafodaethau Grŵp | 261 | 1 |
| Cyfnod Allweddol 1 – Blwyddyn 2 | 516 | 28 |
| Cyfnod Allweddol 2 - Blwyddyn 5 | 390 | 25 |
| Cyfnod Allweddol 3 - Oedran 11-14 | 5 | 0 |
| Cyfnod Allweddol 4 - Oedran 14-16 | 6 | 0 |
| Domino – Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd Oedran 16-25 | 80 | 3 |
| Criw Craff – ymgysylltu â phobl ifanc | 258 | 42 |
| Asesiad ar gyfer Bod Agored i Losgi Bwriadol i Ysgolion | 496 | 3 |
| Opsiynau - 'Gwregysau Diogelwch' | 61 | 0 |
| Opsiynau - 30mya-20mya | 59 | 0 |
| Asesiad ar gyfer Bod Agored i Losgi Bwriadol | 42 | 2 |
| Cyflwyniadau / Gwasanaeth Tanau Gwyllt i Ysgolion | 29 | 0 |
| Addysg Gyhoeddus Diogelwch ar y Ffyrdd | 52 | 0 |
| Cyflwyniad Diogelwch o gwmpas Dŵr | 51 | 0 |
| Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân | 625 | 0 |

Bydd gwaith yn dechrau yn ystod 2024/2025 i sicrhau bod darpariaeth ein gweithgaredd Lleihau Risg Cymunedol yn Gymraeg yn cael ei gynnig yn rhagweithiol i'n cymunedau.



# Nifer yr ymweliadau a dderbyniwyd i dudalennau gwefan Cymraeg

Mae gwefan allanol y Gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnig opsiwn i bob ymwelydd gael mynediad i'w chynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae perfformiad fersiwn Gymraeg y safle yn ystod Ebrill 2023 – Mawrth 2024 o gymharu â'r fersiwn Saesneg wedi'i gofnodi yn y tabl isod:

**decymru-tan.gov.uk**

| Meini prawf | Y wefan Gymraeg | | Y wefan Saesneg | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfnod Adrodd | 2023/2024 | 2022/2023 | 2023/2024 | 2022/2023 |
| Ymweliadau unigryw | 8,200 | 7,420 | 501,000 | 544,281 |
| Defnyddwyr | 5,000 | 3,948 | 171,000 | 189,929 |
| Tudalennau mwyaf poblogiaidd | Swyddi gwag diweddaraf | Swyddi gwag diweddaraf | Swyddi gwag diweddaraf | Swyddi gwag diweddaraf |

# Dadansoddiad o ryngweithiadau â thudalennau Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i sicrhau bod ei holl ymgyrchoedd hyrwyddo a diogelwch trwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol ar gael mor rhwydd i siaradwyr Cymraeg ag y maent i siaradwyr Saesneg. Cyflawnwyd hyn drwy greu sianeli ar wahân ar gyfer y ddwy iaith, gyda chyfrif X Cymraeg arbennig @TanDeCymru a thudalen benodol ar gyfer y Gymraeg ar Facebook. Isod mae rhywfaint o ddata perfformiad ar gyfer pob un o'r sianeli ar gyfer Ebrill 2023 – Mawrth 2024.

## Facebook

| Meini prawf | @TanDeCymru | | @SWFireandRescue | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfnod Adrodd | 2023/2024 | 2022/2023 | 2023/2024 | 2022/2023 |
| Ddilynwyr (Ebrill-Mawrth) | 454 | 421 | 45,665 | 41,138 |
| Narwyddion hoffi newydd (Ebrill-Mehefin) | 5 | 27 | 1,141 | 1,119 |
| Narwyddion hoffi newydd (Gorffennaf-Medi) | 13 | 23 | 1,257 | 786 |
| Narwyddion hoffi newydd (Hydref-Rhagfyr) | 6 | 16 | 760 | 609 |
| Narwyddion hoffi newydd (Ionawr-Mawrth) | 9 | 7 | 1,369 | 621 |

## Trydar gynt

| Meini prawf | @TanDeCymru | | @SWFireandRescue | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfnod Adrodd | 2023/2024 | 2022/2023 | 2023/2024 | 2022/2023 |
| Dilynwyr (Ebrill-Mawrth) | 281 | 241 | 38,276 | 37,637 |
| Negesuon trydar | 1,518 | 1,664 | 1,761 | 2,045 |
| Arwyddion Hoffi | 615 | 653 | 16,170 | 13,468 |

## Instagram

| Meini prawf | Tudalen ddwyieithog | |
|---|---|---|
| Cyfnod Adrodd | 2023/2024 | 2022/2023 |
| Dilynwyr (Ebrill-Marwth) | 8,662 | 8,222 |
| Negeseuon Hoffi | 15,928 | 21,345 |
| Negeseuon | 191 | 201 |

System
# E-recriwtio

Ers ei lansio yn 2021, mae'r system wedi cael ei defnyddio ar gyfer amrywiaeth o wahanol swyddi gwag a phrosesau recriwtio, gan gynnwys ymgyrchoedd recriwtio ar raddfa fawr ar gyfer Diffoddwyr Tân a staff yr Ystafell Reoli. Mae System E-recriwtio'r Gwasanaeth yn rhoi opsiwn i'r defnyddiwr lywio ei dudalennau a chyflwyno cais trwy gyfrwng y Gymraeg. O fewn y ffurflen ar-lein, gofynnir i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am statws y Gymraeg e.e., siaradwr neu ddysgwr Cymraeg a lefel gyffredinol eu Cymraeg. Mae'r ffurflen hefyd yn rhoi opsiwn i dderbyn gohebiaeth bellach drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r system eisoes wedi gwella'r profiad ymgeisio am swydd ar gyfer ein defnyddwyr terfynol.





# Galwadau ffôn a gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg

Mae'r holl rifau ffôn yr ydym yn ei hysbysebu i'r cyhoedd, megis rhif ein derbynfa a rhifau 0800, yn cael eu hateb yn ddwyieithog. Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'r swyddi hyn ar gyfer ymdrin â galwadau sy'n wynebu'r cyhoedd, a chaiff pob cais am ragor o wasanaethau Cymraeg ei reoli'n ganolog.

Mae cyfeiriadau e-bost Cymraeg gyda ni ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

# Polisïau a Gweithdrefnau Corfforaethol

Mae'r Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol i gynnal Asesiadau Integredig ac yn cynnwys y Gymraeg fel maes i'w asesu. Cwblheir asesiadau ar gyfer pob polisi a gweithdrefn, gan gynnwys diwygio dogfennau hŷn. Mae ein polisïau Corfforaethol, sy'n cadarnhau'r holl wasanaethau a ddarperir a gweithgareddau ategol, yn wynebu'r cyhoedd. Mae'r polisïau a gyhoeddir ar Wefan y Gwasanaeth ar gael **yma**.

**DOLEN DEFNYDDIOL:**

Polisi corfforaethol

SGANIWCH FI









# Hyrwyddo'r **Iaith Gymraeg** a Diwylliant Cymru

Mae'r Gwasanaeth yn hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant yn fewnol ar gyfer ei weithwyr ac yn allanol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd. Yn ystod Ebrill 2023 - Mawrth 2024 fe wnaethom ddathlu a rhoi cyhoeddusrwydd i dri dyddiad pwysig gan ddefnyddio e-byst byd-eang, erthyglau mewnrwyd, posteri a chyfryngau cymdeithasol:

| | |
|---|---|
| 15fed o Hydref 2023 | Diwrnod Shwmae |
| 25ain o Ionawr 2024 | Diwrnod Santes Dynwen |
| 1af o Fawrth 2024 | Dydd Gŵyl Dewi Sant |

# Diwrnod Hawliau'r Iaith **Gymraeg**

Ar y 7fed o Ragfyr 2023, cymerodd y Gwasanaeth ran yn Niwrnod Hawliau'r Gymraeg i hyrwyddo'r Gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan Sefydliadau Cyhoeddus yng Nghymru. Pennwyd y dyddiad gan Gomisiynydd y Gymraeg i goffau'r diwrnod yn 2010 pan basiwyd Deddfwriaeth y Gymraeg gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Diwrnod Hawliau'r Gymraeg yn rhoi'r cyfle i hysbysu pobl am eu hawliau, wrth dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyhoeddodd y Gwasanaeth restr o'i Hawliau sy'n cael eu harddangos yn barhaol yn Nerbynfa ein Pencadlys. Gall defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr gael mynediad i dudalen Hawliau'r Gymraeg ar ein gwefan drwy ddefnyddio'r ddolen hon: **Hawliau'r Gymraeg.**

Gyda ni mae gennych hawl i'r canlynol:

- Dogfennau Gymraeg
- Gwefannau Gymraeg
- Yngeisio am swydd yn Gymraeg
- Llythyrau ac e-bost yn Gymraeg
- Taflenni Cymraeg
- Negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg
- Arwyddion yn Gymraeg
- Siarad Cymraeg yn y Dderbynfa
- Defnyddio'r Gymraeg ar y ffôn

Hawliau'r Iaith Gymraeg

SGANIWCH FI









# Nifer y staff â sgiliau **Gymraeg**

Gall Porth AD y Gwasanaeth gofnodi sgiliau iaith. Gofynnir i bob gweithiwr asesu lefel eu sgiliau o 0 - 5 mewn Cymraeg a Saesneg o ran darllen, siarad, deall ac iaith ysgrifenedig a nodi ai Cymraeg neu Saesneg yw ei ddewis iaith.  Mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at gynyddu nifer yr hunanasesiadau a gwblhawyd gyda chyhoeddiadau ar y safle Mewnrwyd, e-byst byd-eang a dogfennau canllaw.  Tynnwyd data o system CoreHR yn ystod Mai 2024, a ddatgelodd fod **86 o weithwyr** wedi nodi bod ganddynt Sgiliau Iaith Gymraeg Lefel 1 neu uwch mewn un hyfedredd neu fwy.

| Categori | Darllen | Lafar | Deall | Ysgrifenedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Lefel 0 | 180 | 177 | 177 | 187 | **721** |
| Lefel 1 | 28 | 35 | 29 | 22 | **114** |
| Lefel 2 | 11 | 14 | 11 | 13 | **49** |
| Lefel 3 | 12 | 10 | 5 | 11 | **38** |
| Lefel 4 | 7 | 6 | 7 | 3 | **23** |
| Lefel 5 | 11 | 8 | 11 | 7 | **37** |
| | | | | | 982 |

# **Swyddi** a Sgiliau **Iaith Gymraeg**

Mae'r Gwasanaeth yn hysbysebu swyddi gwag yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r rhain i'w gweld ar dudalen 'Swyddi Gwag Diweddaraf' ei wefan. Mae pob swydd o fewn y Gwasanaeth yn cael eu categoreiddio fel Cymraeg yn Hanfodol neu Gymraeg yn Ddymunol. Ar gyfer y swyddi hynny o fewn y categori Hanfodol, asesir ymgeiswyr ar eu Sgiliau Iaith Gymraeg fel rhan o'r broses Llunio Rhestr Fer a Dethol.

| Swyddi Newydd a gwag 1af Ebrill 2023 - 31ain Mawrth 2024 | |
|---|---|
| **Cymraeg hanfodol** | **2** |
| **Cymraeg dymunol** | **52** |





Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Hyfforddiant a Chyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae dau brif bwynt cyswllt ar gyfer hyfforddi staff, sef y Tîm Dysgu a Datblygu ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân a'r Ganolfan Hyfforddi a Datblygu ym Mhorth Caerdydd. Ni chynhaliwyd ac ni cheisiwyd unrhyw gyrsiau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2023/2024.

# Gwobr Iaith Gymraeg i Ddiffoddwyr Tân

Mae'n ofynnol i bob Diffoddwr Tân Llawn Amser newydd a gyflogir gan y Gwasanaeth gofrestru ar gyfer cymhwyster Prentisiaeth a hwylusir gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Mae'r Diploma Lefel 3 mewn Gwasanaethau Tân ac Achub Brys yn cynnwys y Cwrs Cyffredinol Prentis-iaith a ddarperir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae Prentis-iaith yn gwrs chwe modiwl sy'n ymdrin â'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru. Mae'r cwrs yn rhyngweithiol ac yn cynnwys system hunanfarcio awtomataidd, sy'n galluogi dysgwyr i weithio'n unigol ar gyflymder sy'n gyfforddus iddyn nhw. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i ennyn diddordeb y dysgwr a'i arwain drwy'r modiwlau, gan gynnwys elfen lafar i helpu'r dysgwr i ymarfer ynganu ymadroddion Cymraeg. Rhoddir tystysgrif i bob dysgwr ar ôl cwblhau'r cwrs. Defnyddiodd un Diffoddwr Tân gyda'r System Ddyletswydd Gyflawn y Gronfa Dysgu Ychwanegol (CDA) i fynychu Mynediad 2 Dysgu Cymraeg.

# Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â **Safonau'r Gymraeg**

Yn y lle cyntaf, mae'r adran Cymorth Busnes yn cofnodi ac yn delio â'r holl gwynion a dderbynnir gan y Gwasanaeth drwy law'r dudalen 'Cysylltu â ni'. Wedyn cyfeirir cwynion eu at yr adran berthnasol. Ni dderbyniodd y Gwasanaeth unrhyw gwynion ynghylch ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2023/2024.





# Camau i'w cymryd yn ystod **2024/2025** ac i'r dyfodol

Mae cynllun gweithredu ar waith ar gyfer gwella cydymffurfiaeth barhaus y sefydliad â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys:

- Byddwn yn hyrwyddo ein mecanwaith cyfredol ar gyfer cipio sgiliau Cymraeg ein staff a phwysigrwydd diweddaru eu gwybodaeth bersonol o fewn ein system. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym set ddata sy'n adlewyrchu ein sefydliad yn gywir a llywio ein nodau, amcanion ac uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.
- Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru ein Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg os bydd angen, gan nodi unrhyw gamau pellach a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein dyheadau sefydliadol i gefnogi defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg.
- Byddwn yn cwblhau gweithdrefn ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol o fewn y sefydliad. Bydd hyn yn sicrhau bod y staff yn deall Safonau'r Gymraeg ac yn gallu cael mynediad at hyfforddiant ac arweiniad perthnasol a fydd yn gwella eu sgiliau.
- Byddwn yn adolygu ein prosesau ar gyfer amserlennu gweithgareddau lleihau risg cymunedol o fewn ein cymunedau, gan sicrhau bod y cyfle i dderbyn y gweithgaredd yn Gymraeg yn cael ei gynnig yn weithredol.
- Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg yn well drwy godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau Cymraeg a threfnu rhaglen o grwpiau ar gyfer datblygu'r Gymraeg i staff ar draws ein Gwasanaeth – anelwn at greu rhwydwaith gefnogol i hwyluso defnydd anffurfiol o'r Gymraeg, gan alluogi'r staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach.

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

01443 232000
www.decymru-tan.gov.uk

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan yr Adran Gyfryngau a Chyfathrebiadau 2024 | MC000374